



Gweler y ddinas a adeiladwyd ger Beddgelert yn y gornel chwith.

Douglas, Tony Curtis a Janet Leigh yn chwarae rhannau'r prif gymeriadau. Dyma'r ffilm y bu i gymeriad o Gaernarfon Wil Napoleon, orfod taflu Janet Leigh i'r dŵr ddwywaith, er mwyn sicrhau bod yr olygfa yn berffaith. Pan ddaeth y ffilm allan, bu Wil yn cwyno oherwydd mai dim ond unwaith y dangoswyd ef yn ei thafllu!

Ffilm liw enwog arall a saethwyd yn y Gogledd oedd *Inn of the Sixth Happiness* (1959) sy'n darlunio bywyd Gwladys Aylward, y genhades, a arweiniodd blant i ddiogelwch o ganol erchyllterau rhyfel yn Tseina a hi'n cael ei chwarae gan Ingrid Bergman. Actorion enwog eraill oedd Robert Donat a Curt-Jugens. Bu farw Robert Donat yn syth ar ôl cwblhau'r ffilm. Lleolwyd y ddinas Sineiaidd ar ochr bryn tu ôl i bentref Nanmor ger Beddgelert. Yn y llun gwelir Moel Hebog yn codi'n rhaddol yn y cefndir. Telid dwy gini i'r bobol leol am actio mewn torf.

Yn 1968 gwnaed *Carry On Up the Khyber* o gwmpas Bwlch Llanberis a Llwybr Watkin, gyda Kenneth Williams a Sid James. Ond y gyfres deledu enwog sy'n dal i ddenu cefnogaeth frwd gan rai yw *The Prisoner* a leolwyd ym Mhorthmeirion yn 1969 gyda Patrick McGeehan yn cymryd y brif ran. Yn yr un flwyddyn rhyddhawyd *The Most Dangerous Man in the World* gyda

Gregory Peck ac Ann Heywood.

Dros y blynyddoedd daeth degau o ffilmiau i Ogledd Cymru, ond yr un a ddaeth â mwyaf o gyfoeth i'r Gogledd oedd *First Knight* (1994). Lleolwyd Camelot, llys y Brenin Arthur, yn Nhrawsfynydd gyda chaer ei elyn Malagant wedi ei

lleoli yn ogofau Chwarel Lechi y Gloddfa Ganol, Blaenau Ffestiniog ac Ogof Llanfair ger Harlech. Bu saith gant o bobl leol yn chwarae rhan yn y ffilm, gyda'r rhan fwyaf yn dod o ardaloedd Dolgellau a Thrawsfynydd. Pan ymddangosodd yr actor Richard

Gere yn Nolgellau i siopa, casglodd tua chant, gan fwyaf yn ferched, i'w gyfarfod. Cafodd Sean Connery gyfle i chwarae golff ar gwrs enwog Dewi Sant Harlech, er nad oedd y tywydd yn ffafriol iawn, a bu Julia Ormond yn mwynhau byrbryd
(Parhad ar dudalen 16)



Y Ddinas yn cael ei bomio.